

David Poston

Pecyn Addysg



Pum breichled, 1983, cebl dur gwrthstaen sbringog

Neclis ar gyfer Eliffant a Straeon Eraill – Bywydau Gweithio

David Poston

Canolfan Grefft Rhuthun: 6 Rhagfyr 2014 – 25 Ionawr 2015

Prifysgol Middlesex: 13 Chwefror – 7 Mawrth 2015

Oriel Harley: 25 Ebrill – 21 Mehefin 2015

Amgueddfa Fitzwilliam: 30 Mehefin – 6 Medi 2015

Canolfan y Celfyddydau Milton Keynes: 13 Medi – 30 Hydref 2015

Ysgol Emwaith Birmingham: 11 Ionawr – 29 Ionawr 2016

Canolfan y Celfyddydau Milton Keynes: Chwefror – Mawrth 2016

Neclis ar gyfer Eliffant a Straeon Eraill- Bywydau Gweithio David Poston

Rhagarweiniad

Mae'r dylunydd David Poston sy'n cael clod rhyngwladol wedi bod ar flaen y gad o ran meddwl ac arfer arloesol ym maes gemwaith cyfoes am dros ddeugain mlynedd. Fe gynrychiolir ei waith arloesol mewn casgliadau mawr cyhoeddus a phreifat ledled y byd.

Mae'r arddangosfa adolygol hon yn dod ag ystod eang o'i waith at ei gilydd o ddiwedd y 1960au hyd y dydd heddiw. Gan ganolbwyntio ar ei emwaith, bydd hefyd yn cynnwys strandiau eraill o'i yrfa amlddisgyblaethol, er enghraifft ei ymchwil meddygol a thechnegol a'i waith datblygu trydydd byd fel dylunydd ac ymgynghorydd i'r Cenhedloedd Unedig, Banc y Byd ac Oxfam. Bydd yr arddangosfa hefyd yn nodweddu ffotograffau sydd heb eu cyhoeddi o'r blaen gan Poston o bobl ddiwylliannol enwog yn cynnwys y Rolling Stones, y band cyfoes Fairport Convention ac artistiaid arbrofol Stuart Brisley a Marc Chaimowicz, y rhain i gyd yn olrhain yn atgofus yr amgylchedd gwleidyddol a chymdeithasol lle y bu'n gweithio.

Mae'r pecyn hwn wedi'i fwriadu i gefnogi athrawon ac addysgwyr gyda chynllunio ymweliad â'r arddangosfa gyda syniadau a awgrymir, gweithdai a phwyntiau trafod. Mae'n canolbwyntio ar waith Poston fel dull o archwilio hunanfyngiant, cysylltiadau personol ac atgofion sy'n cael eu dwyn i'r cof gan y defnyddiau a gweadeddau gemwaith. Bydd yn defnyddio ei waith fel man cychwyn i siarad am wahanol ffurfiau a swyddogaethau gemwaith a hefyd i greu ystod o gelfyddyd yn y dosbarth. Mae'r gweithgareddau'n addas ar gyfer pob grwpiau oed a gellir eu haddasu ar gyfer eich anghenion chi, cyn, yn ystod ac yn dilyn eich ymweliad.

Fe ariennir y prosiect gan Gyngor Celfyddydau Lloegr, wedi'i gomisiynu gan 'The Harley Gallery' a Chanolfan Grefft Rhuthun a'r curadur yw cyn Gyfarwyddwr y Cyngor Crefftau, Dr Louise Taylor. Y ffotograffiaeth i gyd © Joel Degen



Breichled Bangl, 2010, tapestri wedi'i wehyddu ar wifrau dur gwrthstaen wedi'u weldio

Cynnwys

Beth yw Gemwaith?	Tud. 4
– Gweithgareddau	5
Defnyddiau	7
– Gweithgareddau	10
Gwaith mewn Ffocws: Neclis ar gyfer Eliffant	11
– Gweithgareddau	12
David Poston: Dyluniad a Bywyd	13
– Gweithgareddau	15
Rhestr Termiau	16
Adnoddau Pellach	16

Beth yw Gemwaith?

“Mae Gemwaith yn ffordd o ailgymodi pobl â’u cyrff gan wneud iddyn nhw deimlo eu bod yn gwybod beth yw beth. Mae’n ymwneud â’r ffordd y byddan nhw’n teimlo y tu mewn a’r ffordd y gallan nhw gyflawni’r teimlad hwnnw.” - David Poston



Pedair modrwy, titaniwm gyredig, gwahanol ddyddiadau, 2004-2014

Fe gynhyrchwyd gweadedd cyffyrddol y modrwyau hyn drwy wneud weldiau smotyn unigol â phaladr laser

Gemwaith:

- **diffiniad:** Addurniadau personol, fel mwclis, modrwyau, neu freichledi, sydd wedi’u gwneud yn nodweddiadol o emwaith a metel drudfawr neu’n eu cynnwys (Geiriadur Rhydychen)
- **tarddiad:** mae’r gair ‘jewellery’ yn tarddu o’r Hen Ffrangeg ‘jouel’ sy’n golygu tegan.
- **tarddiad:** mae’r gair ‘jewellery’ yn tarddu o’r Hen Ffrangeg ‘jouel’ sy’n golygu tegan

Mae enghreifftiau o emwaith yn goroesi o amseroedd cyn hanes, yn awgrymu fod bodau dynol ers yn gynnar iawn wedi addurno eu cyrff a’u dillad â defnyddiau fel cregyn, esgyrn, dannedd a cherrig, a bydd ei ffurf a’i ddefnyddiau’n amrywio ymysg gwahanol ddiwylliannau ledled y byd. Mae archeolegwyr wedi darganfod gemwaith mewn beddrodau hynafol, wedi’i gladdu â’u perchnogion i fynd gyda nhw i’r byd a ddaw. Mae swynoglau ac eitemau eraill wedi’u gwisgo fel talismanau gan wahanol ddiwylliannau drwy gydol hanes i ddiogelu’r gwisgwr rhag perygl neu niwed. Daeth mhetalau prin fel aur ac arian, neu emau i gael eu prasio’n fawr a chânt eu harddangos fel arwyddocâd o statws neu safle mewn cymdeithasau hierarchaidd.

Cam pwysig yn natblygiad gemwaith oedd darganfyddiad prosesau i weithio a chyfuno metelau er mwyn creu gwrthrychau a oedd yn fwy cywrain fyth a ffurfiau addurno hardd. Fe ddechreuodd dyluniadau adlewyrchu unigolrwydd y gwisgwr gyda chyffyrddiadau personol fel portreadau, llythrennau cyntaf enw, negeseuon neu arwyddeiriau. Byddai arddulliau’n

adlewyrchu ffasiynau a oedd yn newid drwy gydol hanes, er enghraifft diddordeb adnewyddiadol mewn Clasuriaeth yn ystod cyfnod y Dadeni neu Art Deco yn y 1920au.

Yn 1995, fe drefnodd Poston arddangosfa ar gyfer y Cyngor Crefftau, 'Beth yw Gemwaith' a oedd yn archwilio'r syniad o emwaith, ei swyddogaeth, gwahanol ffurfiau a pham fod pobl yn hanesyddol wedi dewis eu haddurno eu hunain ag o. Yn ôl ei arolwg o, bydd pobl yn gwisgo gemwaith er mwyn:

- Statws – i arddangos cyfoeth neu bwysigrwydd
- Aliniad – i ymestyn delwedd arbennig, i gyfleu neges, i greu synnwyr o berthyn i grŵp fel ffurf ar bropaganda
- Hunan - er mwyn ei effaith corfforol neu seicolegol, ei briodweddau cyffyrddol neu synhwyraidd, gwerth sentimental, dull o ymestyn cymeriad rhywun neu ddweud rhywbeth am yr hunan
- Ysbryd – fel gwrthrych defodol, swyn neu swynoglau gyda symbolau neu eiconau
- Hunaniaeth wedi'i orfodi – o'r tu mewn neu'r tu allan i grŵp arbennig
- Dibenion ymarferol – fel ffasnydd, am resymau meddygol, fel arf neu offer (cyllell boced, 'knuckelduster', cylch allweddi etc)

Yn yr oes fodern mae gemwaith wedi dod i gael ei werthfawrogi am resymau artistig ac esthetig yn hytrach na'i gost neu ei ddefnyddiau. Mewn ymateb, mae llawer o ddylunwyr wedi osgoi metelau drud yn fwriadol. Mae technoleg newydd fel weldio laser, yn caniatáu i emyddion cyfoes greu gwaith sy'n gynyddol goeth, yn cyfuno'n aml ddefnyddiau a gweadeddau annisgwyl. I ddylunwyr fel Poston, mae gemwaith heddiw'n ymwneud llai ag atyniad gweledol, wrth i'r profiad corfforol, synhwyraidd a seicolegol o wisgo a chyffwrdd ddod yn bennaf.

Gweithgareddau

Trafodwch emwaith:

- Y gellir ei wisgo i ddynodi statws (e.e. bathodyn, medaliwn, cadwyni swydd, coron neu goronig)
- a allai fod yn ddynodydd tadogaeth ethnig, crefyddol neu gymdeithasol (e.e. bathodyn, croes, seren, modrwy
- â phwrpas swyddogaethol (e.e. dolenni llawes, clipiau gwallt, pinnau het, oriawr)

Ymchwiliwch swynoglau a swyndlysau – ffeindiwch enghreifftiau o emwaith sydd wedi'i ddylunio i gadw drwg draw a diogelu'r gwisgwr. Gwnewch luniau a dyluniwch eich swyndlysau eich hun.

Ewch i ymweld â'ch amgueddfa leol a darganfod gemwaith o gyfnodau eraill a gwahanol rannau o'r byd (e.e. Llychlynnaidd, Rhufeinig, Americanaidd Brodorol, Cefnforol, Eifftaidd, Astec, Fictoraidd, 'Art Nouveau', Pync etc). Ymchwiliwch eu hanes a'r bobl a fyddai'n eu gwisgo. Beth oedd pwrpas yr eitemau hyn? Beth oedd eu deunydd?

Darganfyddwch ffurfiau o emwaith gwahanol e.e. penwisgoedd, modrwyau trwyn, tlysau crog, bandiau braich etc. Gwnewch frasluniau neu casglwch luniau o daflenni, cylchgronau neu gatalogau. Gwnewch ludwaith neu baentiad haniaethol yn seiliedig ar rai o'r dyluniadau y dowch o hyd iddyn nhw.

Holwch ffrindiau a theulu a gofyn iddyn nhw am eu hoff emwaith. Cymerwch ffotograffau neu fideo ac adrodd eu straeon yn ôl i'ch dosbarth. A oes gennych chi unrhyw eitemau sy'n bersonol arwyddocaol, sydd â hanes diddorol neu werth sentimental?

Ffeindiwch eitem o emwaith nad yw'n ddrud mewn siop elusen a dychmygwch ei hanes. Lluniwch stori o ran ei darddiad, pwy oedd ei berchennog ac ar ba achlysuron y byddid yn ei wisgo.

Trafodwch emwaith sydd â dibenion ymarferol e.e. botymau, pinnau het, bocs pils, dolenni llawes. Ffeindiwch gymaint ag a allwch chi o enghreifftiau. Astudiwch eu dyluniad, eu defnyddiau a'u saerniaeth - sut y maen nhw'n gweithio? Arluniwch rai o'ch dyluniadau eich hun.

Crëwch bortreadau cameo o'r naill a'r llall drwy gymryd ffotograffau proffil, oliniwch yr amlinell ar bapur du a'i dorri allan a'i fowntio ar gefndir gwyn.

Casglwch ddelweddau o bobl enwog o gylchgronau neu wefannau. Trafodwch y ddelwedd y maen nhw'n ei chyfleu drwy eu dillad a'u hategolion.

Cymharwch a chyferbyniwch *Portrait of Queen Elizabeth I*, c 1575 Nicholas Hilliard (Yr Oriol Bortreadau Genedlaethol) â *Self Portrait with Badges* Peter Blake, 1961 (Oriol y Tate). Beth y mae addurniadau'r gwisgwr yn ei ddweud wrthyh chi am eu hunaniaeth bersonol a'u statws cymdeithasol? Beth fydd eich gemwaith neu ei bathodynau chi'n ei ddatgelu amdanoch chi?

Trafodwch rôl gemwaith fel symbol o statws. Pa eiddo neu nwyddau sydd wedi'u defnyddio fel arwyddion o gyfoeth neu rym mewn cymdeithas?



Neclis, 1970, drain, arian a weiren alfanedig

Defnyddiau



Breichled ,2003, wedi'i gwneud o ddau ffurf pren gyda chlawr o ddr paentiedig wedi'i ailgylchu o duniau ceirch. Mae'r semau wedi'u weldio â laser gyda phaladr meddal sy'n cynhyrchu ymylon llyfn.

Ers ei yrfa gynnar, mae David Poston wedi dewis gweithio'n bennaf â dur gwrthstaen a thitaniwm, ynghyd â llawer o ddefnyddiau anghonfensiynol, fel gwydr, plastig a gwrthrychau happael. Mae â diddordeb, nid dim ond ym mhriodweddau esthetig y gwahanol adnoddau hyn, ond hefyd yr effaith gyffyrddol, seicolegol a synhwyraidd o gael gwadeddau arbennig yn nesaf at y croen neu eu gwisgo fel ategolyn.

Dyma rai o'r defnyddiau y mae Poston wedi eu hymgorffori yn ei ddyluniadau gydag enghreifftiau o'u defnydd yn ei waith:

Dur -aloi o haearn ac, yn fwyaf cyffredin, carbon, sy'n werthfawr am ei galedwch, ei hydwythedd a'i gryfder tynnol. Er y gellir olrhain y defnydd o ddr yn ôl i'r hen fyd, ni chafodd dulliau

cynhyrchu effeithlon eu dyfeisio tan yr ail ganrif ar bymtheg. Gyda gwelliannau pellach yn y ffordd o gynhyrchu dur daeth yn ddefnydd rhad i'w fasgynhyrchu ac o'r herwydd daeth i gael ei ddefnyddio'n eang yn ystod y Chwyldro Diwydiannol.

Arian a phlatinwm yw'r metelau gwyn traddodiadol a ddefnyddir ar gyfer gemwaith, ond o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg mae dur wedi dod yn ddewis arall sy'n ffasiynol ac yn rhatach.



Breichled bangl, 1981, dur gwrthstaen gyredig â llaw


Cafodd **Titaniwm**, symbol cemegol *Ti* ei ddarganfod yng Nghernyw yn 1791 a'i enwi ar ôl y Titaniaid ym mytholeg Roegaidd. Mae'n hynod ymwrthol i gyrydiad ac mae â'r gymhareb cryfder-i-ddwysedd uchaf o unrhyw elfen fetelig. Gellir cymysgu Titaniwm ag elfennau eraill i gynhyrchu defnyddiau ysgafn, cryf ar gyfer ystod o ddefnyddiau e.e. aerofod, mewnbliadau deintyddol, nwyddau chwaraeon, ffonau symudol, gemwaith.

Y tro cyntaf i Poston ddefnyddio'r deunydd hwn oedd yn y '60au. Mae Titaniwm yn ddefnydd na ellir ei sodro, ond mae arbrofion diweddar â 'gofannu poeth' wedi caniatáu iddo gynhyrchu ffurfiau coeth, syml: 'Rydw i eto'n mwynhau natur y defnydd yma ac mae ei weldio â laser yn caniatáu i mi wneud modrwyau sy'n ei gyfuno a'i gyferbynnu ag aur.



(Fe'i dangosir yn sefyll) **Breichled**, 2008, titaniwm gofannu poeth mewn dwy ran; fe'i dangosir â (yn gorwedd) **Breichled**, 2008, titaniwm gofannu poeth mewn tair rhan

Defnydd synthetig yw **Plastig** yn deillio fel rheol o betrogemegolion. Oherwydd ei gostau cynhyrchu cymharol isel, rhwyddineb ei gynhyrchu a'i amlbwrpasedd, mae plastig wedi disodli llawer o ddefnyddiau traddodiadol mewn bywyd modern. Rhai defnyddiau cyffredin yw: defnydd pacio, defnydd plymio, llestri, teclynnau, teganau, crynoddysgiau, hongwyr, ffonau symudol etc.



Dau fangl, 1979, dur gwrthstaen, un â phlastig coch

Mae Sidan yn ffibr naturiol y gellir ei wehyddu'n decstilau. Fe'i gwnaethpwyd yn gyntaf yn Tsieina hynafol ac, yn hanesyddol, roedd yn eitem foeth yr oedd galw mawr amdani, yn cael ei masnachu rhwng Asia a'r byw Gorllewinol. Ceir y math mwyaf adnabyddus o'r defnydd yma o gocŵn larfa sidanbryf y fwyaren Fair. Daw ei ansawdd clauer, symudliw o strwythur y ffibr sydd fel prism ac sy'n caniatáu i ffabrig sidan blygu golau ar onglau.



Breichled Bang, 2010, sidan wedi'i wehyddu ar weians dur gwrthstaen wedi'u weldio

Gwydr: byddai gwareiddiadau cynnar yn defnyddio gwydr folcanig neu obsidian a oedd wedi'i ffurfio'n naturiol cyn iddyn nhw ddysgu ei wneud drwy wresogi tywod i dymheredd eithafol, gadael iddo oeri ac yna ei ffurfio drwy ei chwythu neu ei dywallt i fowldiau. Er yn frau, mae gwydr hefyd yn gryf iawn a dyna pam fod darnau o swynoglau a gleiniau gwydr a wnaethpwyd

yn c 25,000 wedi goroesi o Ddwyrain Mesopotamia a'r Hen Aifft. Gall gwydr fod yn dryloyw neu gellir ei wneud yn ddidraidd wrth ychwanegu lliw a gwahanol gynwysyddion. Gall hefyd blygu ac adlewyrchu golau. Mae ei ddefnydd drwy gydol hanes yn cynnwys: llestri, ffenestri, gwydr lliw, lensys, chwyddwydrau etc



Breichled bangl, 29013, dur gwrthstaen â gleiniau gwydr coch

Gweithgareddau

Disgrifiwch y profiad o wisgo gwahanol ddefnyddiau'n nesaf at eich croen, fel metel, ffabrig, lledr, papur, weiren etc. Pa rai sy'n fwyaf cyfforddus, synhwyrus, annifyr, trwm, tynn, llac, coslyd...etc? Pa ddefnyddiau yn eich tyb chi sy'n fwyaf addas ar gyfer gwneud gemwaith a pham?

Crynowch restr o wahanol ddefnyddiau a ddefnyddir gan Poston yn y gwaith sydd wedi'i arddangos yn yr arddangosfa. Aseiniwch ddefnydd gwahanol i bob un o'ch myfyrwyr o'r rhestr uchod a gofynnwch iddyn nhw chwilio am fwy o wybodaeth am ei briodweddau, ei hanes, cysylltiadau ac enghreifftiau eraill o'i ddefnydd.

Gwnewch neclis, breichled neu dlws o ddefnyddiau eildro o gwmpas eich cartref e.e. teganau wedi torri, topiau poteli plastig, ffoil, lapion melysion etc. Gellir cordeddu bagiau plastig yn edau ar gyfer gwau neu wehyddu. Gellir paentio tiwbiau pasta a'u hedafu gyda'i gilydd ar linydd. Byddwch yn ddyfeisgar!

Gwylwch fideos o ofannu metel, weldio, gwneud gwydr a phrosesau eraill a ddefnyddir i wneud gemwaith (e.e. <http://www.youtube.com/watch?v=dMt1tqDI1nM>)

Ffeindiwch wybodaeth am Ddur a'r ffordd y gwnaeth y deunydd hwn chwyldroi adeiladu yn yr 20^{fed} ganrif

Casglwch samplau o ystod o ddefnyddiau a cheisio cipio eu gweadeddau a'u nodweddion mewn brasluniau a phaentiadau. Sut fyddwch chi'n mynegi 'tynerwch', 'gloywedd', 'tryleuedd,' 'anhryloywder,' 'rhwd,' 'llewych,' etc? Arbrofwch â gwahanol gyfryngau a thrafodwch eich canlyniadau.

Dyfalwch beth yw'r defnydd - he material – enwch yr eitemau a'u defnyddiau drwy gyffyrddiad, arogl neu sain â mwgwd dros eich llygaid.

Trafodwch sut y gallai eitemau gemwaith ymateb i'r gwisgwr. Er enghraifft, gallai metelau claeaf ddod yn gynnes, gallai bangls janglo, metelau adlewyrchu golau neu newid lliw mewn gwahanol amgylcheddau, gallai modrwyau wisgo'n denau neu newid siâp wrth i fysedd dewhau!



Darn gwddw, 'Popeth y Gallwch ei Fwyta', 2013, dur eildro paentiedig

Gwaith mewn Ffocws: *Neclis i Eliffant* 1975



Yn hwyr ym 1975 hyd yr haf dilynol, roedd gan Poston bum gwaith mewn arddangosfa deithiol, *Gemwaith yn Ewrop: Arddangosfa o Waith Blaengar wedi'i Ddewis gan Ralph Turner*, wedi'i threfnu gan Gyngor Celfyddydau'r Alban a Phwyllgor Ymgynghorol Crefftau. Daeth yr arddangosfa â'i waith i olwg y cyhoedd a'i osod ochr-yn-ochr â rhai o'r gwneuthurwyr gemwaith cyfoes mwyaf blaengar. Roedd hefyd yn dangos ei waith enwocaf – neclis o galchfaen, cywarch, dur meddal, cotwm ac efydd gyda diamedr o bum troedfedd ac yn pwysu oddeutu dau ganpws. Calchfeini oedd y gleiniau mewn gwirionedd, wedi'u casglu a'u didoli'n ofalus o ran maint ar y traeth yn Church Ope Cove, Portland ac wedi'u cario â llaw i fyny llwybr y clogwyn. Cofiai Poston ei fod wedi bwriadu gwneud eitem y gellid ei thrin a'i chyffwrdd gan ymwelwyr â'r arddangosfa heb ofni ei difrodi. Roedd hefyd yn ymateb i gais Turner am rywbeth 'mawr, MAWR.' Wedyn fe atgynhyrchoedd fersiwn anarferol o fawr o neclis roedd wedi'i gwneud i Turner y flwyddyn flaenorol fel jôc: 'Pan ymwelodd o â'm stiwdio i yn Portland, cefais fy synnu gan frwdfrydedd Ralph.' Roedd y neclis nid dim ond yn enfawr ac yn eitem o hwyl a fyddai'n apelio at bob oed, roedd hefyd yn mwyseirio'n glyfar y term slang am 'gerrig' diemwntau ac roedd yn ddehongliad eironig o'r dywediad 'diamonds are a girl's best friend.'

Roedd graddfa enfawr y gwaith hwn yn golygu na ellid ei wisgo gan berson ac nid oedd Poston o blaid awgrym cychwynol Turner y dylid arosod delwedd o'r neclis ar gorff model fenyw ddeniadol i ddibenion cyhoeddusrwydd. Pan dderbyniodd wahoddiad ffurfiol i gyfarfod â'r fodel, 'merch o'r enw Womba mewn parc saffari yn y Midlands, eliffant oedd hi o syrcas Mary Chipperfield. Cyfnod oedd hwn pan oedd hi'n dal i fod yn arferol i anifeiliaid berfformio mewn syrcas a blynnydoedd lawer cyn i Chipperfield gael ei euogfarnu o greulondeb i greaduriaid a oedd yn ei gofal. Fe ddewiswyd y ffotograff bythgofiadwy gan David Cripps yn dangos Womba'n gwisgo'r gleiniau talpiog ar gyfer poster yr arddangosfa ac mae wedi'i atgynhyrchu ledled y byd fel llun eiconig Poston *Necklace for an Elephant*.

Fe brynwyd y neclis gan gasglwr preifat ac fe'i gosodwyd ar wal ei dŷ a gynlluniwyd gan bensaer yn y 'Forest of Dean' lle bydd yn annog ei ymwelwyr i ymgyrraedd i fyny at y cerrig a'u teimlo wrth fynd heibio.

Gweithgareddau

Gwnewch eitem o emwaith gorfawr gyda gwrthrychau annhebygol fel tuniau, tatws, caeadau bin lludw, conau pîn...byddwch yn ddyfeisgar! Trafodwch y ffordd orau o'i arddangos ar gyfer ffotograff a'r ffordd o ddwysau ei raddfa.

Dyluniwch neclis FWY fyth! Dychmygwch emwaith fel pensaernïaeth - gofod y gallech drigo ynddo. Cymerwch freichledau a neclis fel man cychwyn a gwnewch ddarluniadau o dai'n seiliedig ar y siapiau a'r ffurfiau. Pa ddefnyddiau fyddech chi'n eu defnyddio ar gyfer yr adeiladau hyn? Crëwch fodelau o'ch pensaernïaeth mewn cardfwrdd. Arddangoswch nhw efo'i gilydd yn eich ystafell ddosbarth.

Gwnewch eitem o emwaith ysgafn, e.e. cadwyn llygad y dydd, bandiau braich wedi'u crosio neu o decstil, bangl wedi'i wneud o blu, dail neu bapur etc. Disgrifiwch sut deimlad yw gwisgo'r defnyddiau hyn yn nesaf at eich croen.

Ymchwiliwch artistiaid sydd wedi arbrofi â graddfa, pwysau a màs yn eu celfyddyd (e.e. Richard Serra, Ron Mueck, Jeff Koons, Claes Oldenburg). Trafodwch effaith eu gwaith ar y gwylwr. Pa effaith fydden nhw'n ei gael pe baen nhw'n llai, yn ysgafnach neu wedi'u gwneud o ddefnydd gwahanol?

Ffeindiwch wybodaeth am Garreg Portland - beth ydi o? Beth ydi ei nodweddion? Sut gafodd o ei ffurfio? Sut deimlad sydd iddo fo? Ar gyfer beth y caiff ei ddefnyddio? A oes yna unrhyw adeiladau yn eich tref neu gerfluniau wedi'u gwneud â'r defnydd hwn? Pa fathau o garreg sy'n lleol i'r ardal lle'r ydych chi'n byw?

Trafodwch bwysigrwydd 'cyffyrddiad' a 'theimlad' gemwaith. Rhowch fwgwd am eich myfyrwyr a'u gwahodd i afael mewn ystod o wahanol ddefnyddiau a gweadeddau. Gofynnwch iddyn nhw ddisgrifio eu profiad a cheisio nodi'r defnyddiau wrth eu cyffwrdd.

Gwnewch emwaith bwytadwy o fisgedi, ffrwythau neu felysion! Sut allech chi ymgorffori synnwyr o flas ac arogl yn yr eitemau y byddwch yn eu creu? Cymerwch ffotograffau o'ch creadigaethau a chrynhoi 'llyfr coginio' â'ch dosbarth.

Dyluniwch eitem o emwaith ar gyfer anifail arall. Beth fyddai cath yn ei wisgo, neu bengwin, jiráff, cangarw....?

David Poston: Dyluniad a Bywyd

'Fel dylunydd yn hytrach nag artist, bydd yr ateb y byddaf yn ei datblygu ar gyfer unrhyw broblem yn bwydo fy ngallu i ddatrys problemau eraill y gallaf ddod ar eu traws. Mae'r problemau'n wahanol, system hyfforddi neu freichled, ond yr un yw'r offer deallusol.'



Sioe ddiploma David Poston 1970

Fe anwyd David Poston ym Moscow yn 1948 ac fe dreuliodd lawer o'i blentyndod cynnar dramor oherwydd gwaith ei dad mewn darlledu a'r cyfryngau. Dyma gyfnod a fagodd ei synnwyr o antur a fforiad ac nid yw'n syndod iddo deimlo rhwystredigaeth ac ataliaeth pan ddychwelodd i'r DU i fynd i ysgol breswyl. Fel llawer o ddisgyblion gwrthryfelgar, daeth o hyd i noddfa yn yr adran gelf lle cafodd ei ddychymyg rwydd hynt a lle cai unigoliaeth ei meithrin. Roedd wrth ei fodd yn gwneud, yn adeiladu ac yn datrys problemau, ac, yn 10 oed, cafodd ei gyflwyno i waith metel ac fe ddeuai hynny'n awch gydol oes.

Fe arweiniodd ei ddiddordeb a oedd yn datblygu mewn gemwaith at ei gofrestrriad yng Ngholeg Celf Hornsey yn 1967 lle'r oedd ei diwtoriaid yn cynnwys y gemydd arbrofol Gerda Flöckinger. Gellir olrhain gwreiddiau llawer o ddiddordebau a themâu ei yrfa aeddfed i'r cyfnod hwn o newid mawr yn gymdeithasol ac yn wleidyddol ym Mhrydain. Fe effeithiodd ymglymiad actif Poston mewn gwleidyddiaeth a gwrthdystiadau myfyrwyr ar ei agwedd tuag at emwaith wrth iddo ddod yn benderfynol o beidio â 'gwneud bling ar gyfer y cyfoethog'. Byddai'r ymwybyddiaeth hon o werthoedd materol a moeseg yn cael ei hatgyfnerthu'n ddiweddarach gan ei safiad yn erbyn apartheid ac yn arwain at ei wrthodiad i weithio ag aur, gan ddewis metelau anwerthfawr fel tun a dur gwrthstaen. Dangosodd *Diamonds Gold and Slavery are Forever*, 1975 y gallai gemwaith

fod yn fwy na dim ond addurn: roedd â'r potensial i gludo negeseuon grymus, sylwebaeth gymdeithasol a datganiadau gwleidyddol.

Roedd y '60au'n ddegawd cyffrous pan oedd yna groesffrwythloni syniadau rhwng artistiaid, dylunwyr a cherddorion. Roedd Poston wedi astudio ffotograffiaeth fel ail bwnc yn y coleg ac fe fanteisiodd ar y cyfle i gipio byd celfyddyd a miwsig Llundain. Roedd ei bynciau'n cynnwys yr artistiaid cyfoes Stuart Brisley, Marc Chaimovicz a'r sêr roc Elton John a'r Rolling Stones.

'Rwy'n llwyr gredu fod gemwaith ar gyfer y gwisgwr, nid y gwylwr, gan fy mod yn credu ei bod yn hanfodol y dylai pobl fod yn ymglymedig â'u bodolaeth eu hunain yn hytrach nag yn y ddelwedd ohono.'

Yn dilyn trip i'r Unol Daleithiau yn 1969, dechreuodd ddefnyddio deunydd naturiol, wedi'i ysbrydoli gan sgiliau Indiaid Gogledd America. Roedd yn edmygu'n arbennig y ffordd y byddai eu gwaith gleiniau ar ddillad yn ymateb i symudiad corff y gwisgwr. Poston oedd un o'r gwneuthurwyr cyfoes cyntaf i ddefnyddio defnyddiau tecstil, fel sidan, cotwm, cywarch, hemp a llinyn yn ei waith. Yn ystod y cyfnod hwn hefyd fe arbrofodd â defnyddiau hapgael fel topiau poteli, caniau tun etc, a daeth i sylw'r cyhoedd yn gyflym fel un o'r ffigurau arweiniol yn y byd gemwaith avant-garde yn Ewrop.

Ar ddiwedd y 70au fe aeth gwaith Poston i gyfeiriad newydd wrth iddo ddechrau gofannu mewn dur i gynhyrchu gemwaith synhwyrdd, ond 'anhyblyg, llyfn a gwrthbwyntiol yn hytrach na gemwaith meddal a chydffurfiol.

'Yn ystod bwlch o ugain mlynedd doedd gen i ddim gweithdy, wnes i ddim byd ac roeddwn wedi fy meddiannu'n llwyr gan bethau eraill, pwysicach heb amheuaeth.'

Er enwogrwydd a chydabyddiaeth ryngwladol, cafodd Poston ei ddadrithio â'r byd gemwaith cyfoes a'i 'commodification' cynyddol fel 'celfyddyd' yn yr '80au. Ac yntau'n bolymath aflonydd bob amser, fe dreuliodd y ddau ddegawd nesaf yn ysgrifennu traethawd PhD mewn peirianeg, yn astudio ac yn cynorthwyo â datblygiad bywoliaethau cynaliadwy mewn llawer o wledydd Affricanaidd ac fe weithiodd fel ymchwilydd a dylunydd ymgynghorol mewn eco-dechnoleg.

Fe nododd yr arddangosfa carreg filltir *Beth yw Gemwaith?* gyda Poston yn Guradur ar gyfer y Cyngor Crefftau yn 1994 ei ddychweliad i'r testun, yn cwestiynu pwrpas gemwaith a'i berthynas â 'celfyddyd gain'.

Yn 2000, ac yntau'n gweithio ym Mhrifysgol Loughbrough, fe gyflwynwyd Poston i weldio laser, dull a arweiniodd at gyfer o weithiau wedi'u gwneud o ganiau bwyd wedi'u hailgylchu, lle defnyddid y paladr i lyfnhau ymylon siarp.

Yn y blynyddoedd diweddar, mae wedi parhau i gynhyrchu gwaith arloesol a gymeradwyir yn fawr gan ddefnyddio titaniwm gyr, dur wedi'i weldio â laser a strwythurau tecstil wedi'i wehyddu.

Mae hefyd wedi cynorthwyo sefydliadau fel y Cenhedloedd Unedig, Banc y Byd ac Oxfam fel dylunydd ac ymgynghorydd. Y llinyn cyswllt drwy lu ffasedau ei yrfaedd yw penderfyniad i ddeall ac yna ddatrys problemau a, yn y pen draw, i wella bywydau pobl boed hynny drwy addysg, technoleg neu greadigrwydd.

Gweithgareddau

Ymchwiliwch ffasiwn a dyluniad y '60au a'r '70au. Casglwch ddelweddau o ddillad ac ategolion a'u defnyddio i greu gludwaith o ddisgo neu barêd ffasiwn. Gofynnwch i aelodau hŷn y teulu a oes ganddyn nhw unrhyw eitemau y gallech eu benthyg ar gyfer sioe ffasiwn yn eich ystafell ddosbarth.

Ffeindiwch ddelweddau o waith gleiniau Gogledd America a gwnewch gopiâu o ddyluniadau gan ddefnyddio gleiniau, botymau, stribedi o ffabrig a chyfryngau cymysg.

Trafodwch ddatblygiad gemwaith Poston drwy gydol ei yrfa. Pa ddefnyddiau, prosesau a dulliau a ddefnyddiwyd ganddo? Pam y mae'n ffafrio metelau sydd ddim yn werthfawr? Beth fydd ei ddyluniadau'n eich atgoffa ohonyn nhw? Pa rai fyddech chi'n hoffi eu gwisgo a pham?

Gwnewch frasluniau neu baentiadau o'ch hoff eitemau gan David Poston. Sut deimlad fyddai eu gwisgo tybed? Disgrifiwch nhw'n fanwl ac esboniwch pam eu bod yn apelio atoch chi. Dyluniwch wisgoedd y gellid eu gwisgo â nhw.

Meddyliwch am drosi dyluniadau 2D yn wrthrychau 3D. Sut fydd gemyddion, penseiri, teilwriaid a gwniyddesau neu gerflunwyr yn llunio dyluniadau? Gwnewch fodelau o'ch lluniadau llinell eich hun mewn weiren, clai, papur neu gerdyn. Pa ddefnyddiau sydd orau gennych chi i arbrofi â nhw a pham?

Dawns – ymateb i symudiad, twistio, ffurf a gofod yng ngwaith Poston. Coreograffwch, fel grŵp, ddawns neu ddilyniant o symudiadau i'w perfformio i'r dosbarth.

Sain – cyfansoddwch ddarn sain gan ddefnyddio offerynnau taro fel ratls, maracas, trionglau, barau cloch etc yn gyfeiliant i'ch dawn ac i fynegi priodweddau a nodweddion gemwaith Poston

Cymerwch ffotograff o'ch teulu a'ch ffrindiau'n gwisgo eu hoff eitemau gemwaith. Beth fydd y portreadau hyn yn ei ddweud am eu chwaeth a'u personoliaeth?

Rhestr Termau

Aloi: cyfuniad o ddau neu fwy o fetelau

Swynogl: gwrthrych a wisgir fel swynogl i gael lwc dda neu i ddiogelu rhag drwg

Gemwaith Celfyddyd: term a ddefnyddir i ddisgrifio gemwaith a gynhrychir gan grefftwyr stiwdio, yn pwysleisio mynegiant creadigol ac yn ymgorffori ystod eang o ddefnyddiau a phrosesau.

Boglynnu: patrwm a bwysir i mewn i ddefnydd i adael dyluniad mewn cerfwedd

Gofannu: proses o siapio metel gan ddefnyddio prosesau fel morthwyllo, pwyso neu rollo â chelfi.

Dilysnod: marc wedi'i stampio ar eitemau o emwaith fel gwarant o ddilysrwydd

Gofannu Poeth: fel yr uchod, ond yn gwresogi'r metel hyd dymheredd uchel i ddechrau i'w wneud yn fwy hydrin.

Enosodedig: pan dynnir gofod allan o arwyneb a defnydd cyferbyniol yn cael ei ffitio y tu mewn iddo.

Gloywedd: gallu deunydd i adlewyrchu golau

Weldio paladr laser: dull a ddefnyddir i uno elfennau â'i gilydd â dull paladr laser sy'n darparu ffynhonnell wres dwys.

Gemwaith Newydd yn y '60au, mudiad a oedd yn gysylltiedig â gwneuthurwyr fel Emmy van Leersum a Gijs Bakker a brotestiodd yn erbyn defnyddio defnyddiau gwerthfawr, ystyr cyfyngedig a cheidwadaeth ffurf a lleoliad gemwaith mewn perthynas â'r corff.

Adnoddau Pellach

David Poston, *What is Jewellery*, Cyngor Crefftau, 1995

Hugh Aldersey-Williams, *Periodic Tales: the Curious Lives of the Elements*, Penguin, 2012

Peter Dorner a Ralph Turner, *The New Jewellery: Trends and Traditions*, Thames & Hudson 1994

Joanne Hayward, *Mixed Media Jewellery: Methods and Techniques*, A&C Black, 2009

Julia Mannheim, *Sustainable Jewellery*, A&C Black, 2009

Kathie Murphy, *Non-Precious Jewellery: Methods and Techniques*, A & C Black, 2009

Gwefan ar gyfer yr arddangosfa: <http://www.david.poston.co.uk>

Adnoddau Ar-lein Eraill

<http://en.wikipedia.org/wiki/Jewellery>

<http://davidposton.net/about.html>

<http://inspirationalbeading.blogspot.co.uk/>

<http://en.wikipedia.org/wiki/Forging>

<http://books.google.co.uk/books?id=KsfRxQw3ImAC&pg=PA9&lpg=PA9&dq=david+poston+jewellery&source=bl&ots=MsWGxzeUYO&sig=NBQkye4bCcW9Im5vRd1UT8Hp5jk&hl=en&sa=X&ei=TT0xVNvmJYfh atXPgNgJ&ved=0CD8Q6AEwBjgU#v=onepage&q=david%20poston%20jewellery&f=false> :

<http://www.vam.ac.uk/content/articles/h/history-jewellery/> <http://www.historyofglass.com/>

Julie Robson 2014